

Sut ydw i'n...?

Canllawiau ar gyfer ffonau a llechi Android

Recordio fideo a'i gadw ar OneDrive



Y ffordd hawsaf o anfon fideo at eich tiwtor yw drwy OneDrive. Mae'r canllawiau hyn yn dangos ichi sut i recordio fideo gan ddefnyddio'ch ffôn neu lechen Android a'i lanlwytho i OneDrive.

1


Gosod OneDrive



Ewch i **Play Store**
Android ar eich ffôn neu
lechen Android



Chwiliwch am
Microsoft OneDrive
a'i osod ar y teclyn




Agorwch yr ap a mewngofnodi
gan ddefnyddio'ch manylion yn y
Drindod Dewi Sant

2

Recordio'ch fideo



Agorwch eich
ap **Camera**



Recordiwch eich fideo

Cofiwch ffilmio gyda'r
camera ar draws ac nid ar i
fyny




3


Lanlwytho'ch fideo i OneDrive




Ar ôl gorffen recordio, agorwch
eich ap **Oriel**



Dewiswch Share



Chwiliwch am eich
fideo a'i ddewis



Dewiswch Onedrive

I gael canllawiau ynghylch sut i rannu'r ffeil o'ch OneDrive, gwelwch
ein canllawiau "Rhannu fy ffeiliau gan ddefnyddio OneDrive"